# David Attenborough

Cyfeiriad e-bost a chyfrif LinkedIn / Rhif ffôn
Trwydded yrru ddilys a glân.

## Proffil personol

Rwy’n fyfyriwr angerddol ac ymroddedig yn fy ail flwyddyn o astudio’r Biowyddorau sydd â diddordeb brwd yn yr amgylchedd, cynaliadwyedd a chadwraeth bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol. Rwy’n meddu ar wybodaeth ragorol o theori ecolegol a sgiliau arolygu ac ymchwil ymarferol a ddatblygwyd trwy fy astudiaethau presennol a phrofiad gwirfoddoli perthnasol. Rwy’n awyddus i gael rhagor o brofiad cadwraeth ymarferol mewn elusen bywyd gwyllt flaenllaw er mwyn dilyn trywydd fy angerdd dros ddiogelu'r amgylchedd a bywyd gwyllt.

## Addysg

**BSc Gwyddorau Biolegol***, Prifysgol Caerdydd* (Yn debygol o gael 2.1) **2023 - presennol**

- Gwella gwybodaeth am y byd naturiol, yr amgylchedd a’r amrywiaeth naturiol sy'n bodoli yn y byd
- Dilyn trywydd fy angerdd dros ecoleg a chadwraeth trwy ddewis modiwlau dewisol yn yr ail flwyddyn sy'n canolbwyntio ar ecoleg, gan gynnwys Ecoleg Rhan A a B, yn ogystal ag Amrywiaeth ac Addasiad Anifeiliaid
- Datblygu dealltwriaeth gadarn o ddosbarthu anifeiliaid, y mecanweithiau sy'n siapio cymunedau ecolegol a theori ecolegol a'i gymhwysiad ymarferol
- Gwella fy sgiliau ymarferol er mwyn dilyn gyrfa mewn ecoleg yn y dyfodol, er enghraifft casglu a dadansoddi data ecolegol, deall agweddau labordy ar swyddogaeth ecosystemau a gwella fy hyfedredd o ran technegau arolygu

**Safon Uwch,** *Ysgol South Craven* **2021-2023**
Hanes (A), Bioleg (B), Cemeg (B), Astudiaethau Cyffredinol (A*), Cymhwyster Prosiect Estynedig (EPQ) (A*), A/S Ffiseg (B),

**TGAU,** *Ysgol South Craven*
9 A* gan gynnwys Bioleg, Cemeg, Ffiseg a Saesneg, 3 A gan gynnwys Mathemateg **2019-2021**

## Sgiliau Perthnasol

- **Arolygu ecolegol a chasglu data biolegol**: Profiad o gynhyrchu adroddiadau arolygu ecoleg â sicrwydd ansawdd yn unol â deddfwriaeth gyfredol yn rhan o fy ngradd a phrofiad gwaith gwirfoddol
- **Sgiliau TG:** wedi dod yn hyderus wrth ddefnyddio meddalwedd gwyddonol ac ystadegol megis R, MEGA, Populus a STAMP, a hynny trwy wneud gwaith cwrs cymhwysol
- **Sgiliau cyfathrebu**: gallu ysgrifennu adroddiadau ecolegol mewn ffordd gryno a chlir a gallu cyfathrebu dulliau ecolegol cymhleth mewn ffordd sy'n hygyrch i bawb
- **Sgiliau gweithio’n rhan o dîm**: Gweithiais yn effeithiol yn rhan o dîm yn ystod gwaith maes a phrosiect ymchwil yn rhan o fy ngradd, yn ogystal â gyda fy nghyd-fyfyrwyr ar Ynys Echni

## Profiad Perthnasol

**Prosiect maes ecolegol wythnos o hyd,** *Prifysgol Caerdydd* **Medi 2024**

- Asesu poblogaethau mamaliaid bach (pathewod ac ystlumod) gan ddefnyddio'r dull marcio ac ail-ddal ac astudio dosbarthiadau ymlusgiaid mewn amgylchedd lloches ym Mharc Slip.
- Ymchwilio i boblogaethau chwilen carabid gan ddefnyddio trapiau mewn tyllau ac asesu amrywiaeth planhigion trwy samplu cwadradau yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig

- Cynorthwyo wrth baratoi trwyddedau EPSM gan weithio'n effeithiol mewn tîm bach er mwyn cyflwyno'r canfyddiadau i'r myfyrwyr a'r academyddion

**Gwirfoddolwr Preswyl**, *Ynys Echni,* Caerdydd **Mehefin 2023 – Gorffennaf 2024**

- Aros ar Ynys Echni am 5 wythnos i gefnogi cadwraeth cynefin naturiol yr ynys
- Cynnal a chadw rheolaidd i ddiogelu cynefinoedd rhywogaethau sy'n byw ar yr ynys (gan gynnwys gwylanod cefn du llai), er enghraifft clirio prysgwydd a chynnal a chlirio llwybrau
- Monitro a chasglu data arolwg ar yr ystod o adar ar yr ynys
- Ennill dealltwriaeth fanwl o fioddiogelwch mewn perthynas â gwaith cadwraeth a phwysigrwydd gweithredu mesurau i ddiogelu ardaloedd rhag ysglyfaethwyr a phlanhigion ymledol
- Ymgysylltu ag ymwelwyr â'r ynys, cynnal teithiau a chyfathrebu egwyddorion ecolegol a chadwraeth mewn ffordd hygyrch

## Profiad Arall

**Gweinydd bar (rhan-amser),** Caerdydd **Tachwedd 2023 – Presennol**

- Gweithio'n rhan-amser ochr yn ochr â'm hastudiaethau, gan gydbwyso ymrwymiadau eraill yn llwyddiannus wrth ennill annibyniaeth ariannol
- Gweini cwsmeriaid mewn bar prysur yng nghanol Caerdydd a chynnig gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid
- Cadw'r bar wedi'i stocio a'i lanhau a helpu'r staff newydd gydag archebion.
- Wedi ennill profiad o ddatrys sefyllfaoedd heriol mewn ffordd gyfeillgar ac â pharch, gan weithio'n effeithlon dan bwysau yn ogystal â gwella fy sgiliau rheoli amser a blaenoriaethu gwaith.

**Gwirfoddolwr Manwerthu,** Oxfam, *Swydd Efrog* **Gorffennaf 2021 – Medi 2021**

- Gwirfoddoli yn fy siop Oxfam leol dros yr haf cyn dechrau fy astudiaethau Safon Uwch.
- Ennill hyder wrth ddefnyddio'r til a chyfathrebu â chwsmeriaid

## Gwobrau a Chyflawniadau

**Ysgrifennydd Cymdeithasol***, Prifysgol Caerdydd* **Hydref 2024 – Presennol**

Yn gyfrifol am gydlynu cyfarfodydd a digwyddiadau un o'n cymdeithasau i fyfyrwyr, *y Gymdeithas Bywyd Gwyllt a Chadwraeth.* Fe wnaethon ni wella ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynyddu aelodaeth. Fe wnaeth y tîm gynyddu aelodaeth 5% a chodi £2,000 drwy weithgareddau creadigol a diddorol gyda'r cyhoedd, er enghraifft stondin dros dro yng nghanol dinas Caerdydd am wirfoddoli dros fywyd gwyllt.

**Gwobr Caerdydd,** *Prifysgol Caerdydd* **Mai 2024**

Wedi'i gyflawni trwy gwblhau rhaglen cyflogadwyedd strwythuredig yn llwyddiannus, gan ganolbwyntio ar wella sgiliau rheoli gyrfa a hunanymwybyddiaeth. Cymryd rhan mewn ystod eang o ddigwyddiadau gan gyflogwyr a sesiynau gyrfaoedd llawn gwybodaeth - er enghraifft ymgysylltu â chyflogwyr sy'n gweithio ym maes ecoleg a chadwraeth yn ffair Cwrdd a Chyfarch y Biowyddorau ym mis Chwefror 2024.

## Geirdaon

Ar gael ar gais